



Cyfarfod Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal

Cofnodion cyfarfod Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru a gynhaliwyd ddydd Iau 30 Mawrth 2023 fel cyfarfod rhithwir a ddarllodedwyd yn fyw drwy Zoom.

 10:30 i 14:50

 30 Mawrth 2023

| Aelodau'n Bresennol | Llythrennau Cyntaf | Teitl | Sefydliad |
|-------------------------|--------------------|--|------------------------------|
| Simon Jones | SJ | Cadeirydd y Bwrdd | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Ruth Glazard | RG | Is-gadeirydd y Bwrdd | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Ifan Evans | IE | Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Andrew Fletcher | AF | Aelod Cyswllt o'r Bwrdd – Undeb Llafur | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Rowan Gardner | RoG | Aelod Annibynnol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Rhidian Hurle | RH | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Sam Lloyd | SL | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Claire Osmundsen-Little | COL | Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Alistair Klaas Neill | AKN | Aelod Annibynnol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| David Selway | DS | Aelod Annibynnol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Helen Thomas | HT | Prif Swyddog Gweithredol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |

| | | | |
|------------------|-----|------------------|------------------------------|
| Marian Wyn Jones | MWJ | Aelod Annibynnol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
|------------------|-----|------------------|------------------------------|

| Yn bresennol | Llythrennau Cyntaf | Teitl | Sefydliad |
|---|--------------------|---|--------------------------------------|
| Nathan Couch | NC | Arweinydd Archwilio Perfformiad | Archwilio Cymru |
| Chris Darling | CD | Ysgrifennydd y Bwrdd | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Darren Griffiths (ar gyfer eitem 5.1 yn unig) | DG | Rheolwr Archwilio | Archwilio Cymru |
| Sam Hall | SH | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl. | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Nerys Hurford | NH | Cyfieithydd | Gwasanaethau Cyfieithu Nerys Hurford |
| Sarah-Jane Taylor | SJT | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |
| Laura Tolley | LT | Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth) | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |

| Ymddiheuriadau | Teitl | Sefydliad |
|---|-------|-----------|
| Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | | |

| Acronymau | | | |
|-----------|--|------|---|
| DHCW | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | SHA | Awdurdod Iechyd Arbennig |
| CEO | Prif Swyddog Gweithredol | DPIF | Cronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol |
| POD | Pobl a Datblygu Sefydliadol | IMTP | Cynllun Tymor Canolig Integredig |
| IOPR | Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig | PCGC | Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| BIPBC | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | TGCh | Gwybodaeth, Cyfathrebu, Technoleg |

| Rhif yr Eitem | Manylion yr Eitem | Canlyniad | Cam gweithredu |
|---|--|--------------|----------------|
| MATERION RHAGARWEINIOL | | | |
| 1.1 | <p>Croeso ac Ymddiheuriadau</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd bawb yn ddwyieithog i gyfarfod Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig (SHA) Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW).</p> <p>Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw drwy Zoom. Yn ogystal, byddai'r recordiad ar gael drwy wefan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer unrhyw un nad oedd yn gallu cael mynediad i'r cyfarfod yn fyw. Roedd platfform Zoom yn cael ei ddefnyddio er mwyn caniatáu i aelodau fod yn weladwy trwy gydol y cyfarfod ac i gyfieithu ar y pryd ddigwydd, gan ganiatáu i aelodau gymryd rhan yn y cyfarfod yn Gymraeg neu Saesneg.</p> <p>Darparodd y Cadeirydd hysbysiadau cadw tŷ ynghylch agweddau technegol ffrydio byw'r cyfarfod, y seibiannau arfaethedig, a'r defnydd o'r agenda caniatâd ar gyfer eitemau 2.1 i 2.14.</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd fod y Bwrdd newydd ddod â chyfarfod preifat byr i ben a gynhaliwyd yn breifat oherwydd sensitifrwydd masnachol ynghylch y Rhaglen LINC, ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniadau yn ystod y cyfarfod preifat hwn.</p> | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.2 | <p>Ymddiheuriadau am Absenoldeb</p> <p>Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb</p> | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.3 | <p>Datganiadau o Fuddiannau</p> <p>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.</p> | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| AGENDA CYDSYNIO — I'W CHYMERADWYO A'I NODI | | | |
| 2.1 | <p>Cofnodion y Cyfarfod a Gynhaliwyd 26 Ionawr 2023 sydd heb eu Cadarnhau</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>GYMERADWYO cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023, yn amodol ar un mân ddiwygiad y gofynnwyd amdano.</p> | Cymeradwywyd | Dim i'w nodi |
| 2.2 | <p>Cofnodion Cryno Preifat Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod Bwrdd 26 Ionawr 2023</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>GYMERADWYO cofnodion cryno preifat sydd heb eu cadarnhau o gyfarfod bwrdd 26 Ionawr 2023.</p> | Cymeradwywyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|------|---|------------------|--------------|
| 2.3 | Log Gweithredu Penderfynodd y Bwrdd: NODI'R Cofnodion Gweithredu. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.4 | Blaengynllun Gwaith Penderfynodd y Bwrdd: NODI cynnwys y Blaengynllun. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.5 | Cylch Busnes y Bwrdd 2023-24 Penderfynodd y Bwrdd: GYMERADWYO Cylch Busnes y Bwrdd 2023-24. | Cymeradw ywyd | Dim i'w nodi |
| 2.6 | Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor a'r Grŵp Ymgynghorol Penderfynodd y Bwrdd: GYMERADWYO adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor a'r Grŵp Ymgynghorol | Cymeradw ywyd | Dim i'w nodi |
| 2.7 | Hunanasesiad Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Penderfynodd y Bwrdd: NODI Hunanasesiad Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgor | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.8 | Adolygiad Blynyddol o Reolau Sefydlog a'r Adroddiad Cydymffurfiaeth Penderfynodd y Bwrdd: GYMERADWYO Adolygiad Blynyddol o Reolau Sefydlog a'r Adroddiad Cydymffurfiaeth. | Cymeradw ywyd | Dim i'w nodi |
| 2.9 | Adolygiad o'r Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu Penderfynodd y Bwrdd: GYMERADWYO Adolygiad o'r Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu | Cymeradw ywyd | Dim i'w nodi |
| 2.10 | Asesiad Blynyddol y Safonau Iechyd a Gofal Penderfynodd y Bwrdd: GYMERADWYO Asesiad Blynyddol y Safonau Iechyd a Gofal | Cymeradw ywyd | Dim i'w nodi |
| 2.11 | Adroddiad Blynyddol Cynllunio at Argyfyngau Penderfynodd y Bwrdd: GYMERADWYO'r Adroddiad Blynyddol Cynllunio Argyfwng. | Cymeradw ywyd | Dim i'w nodi |
| 2.12 | Adroddiad Polisi Penderfynodd y Bwrdd: | Cymeradw ywyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|------|--|------------|--------------|
| | GYMERADWYO'r Adroddiad Polisi. | | |
| 2.13 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Penderfynodd y Bwrdd: NODI diweddariad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 2.14 | Adroddiad Blynyddol Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau Penderfynodd y Bwrdd: GYMERADWYO Adroddiad Blynyddol y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau. | Cymeradwyd | Dim i'w nodi |

PRIF AGENDA

RHAN 3 - I'W HADOLYGU

| | | | |
|-----|--|--------------------------|--------------|
| 3.1 | <p>Adroddiad y Cadeirydd</p> <p>Amlinellodd y Cadeirydd yr uchafbwyntiau canlynol o'r adroddiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trefniadau Llywodraethu Rhaglen Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd y byddai adroddiad terfynol yr Adolygiad Annibynnol ynghylch Trefniadau Llywodraethu Rhaglenni'n cael ei rannu'n fuan a byddai'r eitem hon yn cael ei chynnwys ar yr agenda yng nghyfarfod Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig ym mis Mai. • Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd y Gweinidog Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu diwrnod cwrdd i ffwrdd gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chadeiryddion eraill GIG Cymru ar 16 Mawrth 2023 a thrafododd rôl Iechyd a Gofal Digidol Cymru, themâu digidol a blaenoriaethau ariannu. Dywedodd y Cadeirydd hefyd y bu trafodaethau hefyd ynghylch yr heriau a wynebwr ar draws GIG Cymru gan gynnwys amlygu'r heriau ariannol sylweddol a'r bygythiad parhaus o seiberddiogelwch. Rhannodd y Cadeirydd fod yna farn gyffredin am ryngweithredu Unwaith i Gymru a chydabyddiaeth y gellir cyflawni trawsnewid sylweddol trwy ddigidol tra'n cydnabod yr adnoddau sydd eu hangen i wneud hyn. <p>Gofynnodd y Cadeirydd am gymeradwyaeth gan y Bwrdd ar gyfer Camau Gweithredu'r Cadeiryddion a gymerwyd ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd a oedd ar gyfer Contract Cymru Gyfan Partneriaeth Cydwasnaethau GIG Cymru ar gyfer Newidiadau i Contract Cyfleustodau.</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd hefyd y byddai adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys uchafbwyntiau gan yr Is-Gadeirydd.</p> | Derbyniwyd a Chymeradwyd | Dim i'w nodi |
|-----|--|--------------------------|--------------|

| | | | |
|-----------------------------------|---|-------------------------------|--------------|
| | <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>DDERBYN cynnwys adroddiad y Cadeirydd a CHYMERADWYO Cam Gweithredu'r Cadeirydd.</p> | | |
| 3.2 | <p>Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol</p> <p>Darparodd Helen Thomas (HT), Prif Swyddog Gweithredol yr uchafbwyntiau canlynol o'r adroddiad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhaglen Ddigidol Gofal Llygaid - dywedodd HT fod sgysiau parhaus wedi'u cynnal ag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a chynigiwyd y byddai'r rhaglen yn trosglwyddo i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar 1 Mehefin 2024. Byddai cynllun pontio rhaglen yn cael ei roi ar waith, a byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Bwrdd y Bwrdd Iechyd Arbennig ym mis Mai 2023. • Cyfarfod Tîm Rheoli'r Prif Weithredwyr a Gweithdy Strategol Teleiechyd, Digwyddiad TEC Cymru – esboniodd HT ar y ddau achlysur y bu trafodaethau cynhyrchiol ynghylch rhithwardiau gyda Tec Cymru yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. • Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Dywedodd HT wrth y Bwrdd fod Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Darren Lloyd, Cyfarwyddwr Cyswllt Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Cleifion wedi mynychu ymchwiliad undydd Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd ar gyfiawnder data a'r defnydd o ddata personol yn GIG Cymru ar 27 Mawrth 2023 lle cafwyd trafodaeth dda am sut mae data'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, effaith y symudiad cyflym tuag at dechnoleg ddigidol yn GIG Cymru, cadw data personol yn ddiogel a chynlluniau ar gyfer y dyfodol ar gyfer defnyddio data cleifion i wella'r ddarpariaeth ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd. <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>DDERBYN a THRAFOD cynnwys adroddiad y Prif Weithredwr.</p> | Derbyniwyd a Thrafodwyd | Dim i'w nodi |
| RHAN 4 – EITEMAU STRATEGOL | | | |
| 4.1 | <p>Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26</p> <p>Cyflwynodd Ifan Evans (IE), Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth yr adroddiad a chadarnhaodd fod Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26 yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo cyn ei</p> | Cymeradwyd | Dim i'w nodi |

gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Dywedodd IE ei bod yn bleser cyflwyno'r adroddiad i'r Bwrdd ei gymeradwyo ac eglurodd y canlynol:

- Cynhaliwyd nifer o weithdai dros y misoedd diwethaf lle cyfrannodd dros 100 o bobl, gan gynnwys staff, aelodau'r Bwrdd a rhanddeiliaid at ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig;
- Sicrhaodd y gweithdai a'r ymgysylltu fod pawb yn cymryd perchnogaeth o'r cynllun;
- Roedd y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn sylweddol fyrrach na'r blynyddoedd blaenorol;
- Pwyslais y Cynllun Tymor Canolig Integredig oedd gwaith newid, gwaith trawsnewid a'r gwaith ychwanegol y mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ei wneud a phrif raglenni Iechyd a Gofal Digidol Cymru;
- Roedd gwasanaethau busnes fel arfer yn greiddiol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel sefydliad, roedd y rhain wedi'u cynnwys yn y cynllun ond nid oeddent mor amlwg â meysydd eraill, roedd hyn yn fwriadol gan fod pwyslais yn cael ei roi ar gyflawniadau allweddol a oedd yn bwysig i Iechyd a Gofal Digidol Cymru;
- Roedd ymgysylltu strategol yn heriol iawn ar draws y GIG a gofal cymdeithasol yn gyffredinol;
- Roedd yr arena ddigidol yn newid yn gyflym a dyna pam roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn glir ynghylch yr hyn y mae'n ei wneud i helpu ei rhanddeiliaid i ddeall rôl Iechyd a Gofal Digidol Cymru;
- Roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn agored ac yn dryloyw iawn o ran heriau o fewn y Cynllun Tymor Canolig Integredig;
- Byddai'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ar 31 Mawrth 2023.

Dywedodd Ruth Glazzard (RG), Is-Gadeirydd fod llawer yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ei gyflawni. Er y cydnabyddir y byddai'n heriol cyflawni, byddai angen i'r Bwrdd herio'r ddarpariaeth yn barhaus dros y misoedd nesaf.

Penderfynodd y Bwrdd:

| | | | |
|------------|--|--|---------------------|
| | <p>GYMERADWYOr Cynllun Tymor Canolig Integredig 2023-26 gan gydnabod ei fod yn gynllun anghytbwys dros 3 blynedd.</p> | | |
| <p>4.2</p> | <p>Adroddiad Cyllid</p> <p>Cyflwynodd Claire Osmundsen-Little (COL), Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yr adroddiad perfformiad ariannol hyd at Chwefror 28ain. Amlygwyd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn rhagweld cyflawni'r holl dargedau ar gyfer diwedd y flwyddyn; • Cytunwyd ar ddyfarniad cyflog gan Lywodraeth Cymru a gweithredwyd arno ym mis Mawrth; • Rhannwyd trosolwg o'r gyfradd rhedeg refeniw; • Amlygwyd perfformiad Refeniw Craidd gyda pheth pwysau yn y Cyfarwyddiaethau Clinigol, Cyllid a Busnes a Sicrwydd a TGCh; • Roedd targed arbedion i'w gyflawni a rhannwyd trosolwg o'r targedau arbedion a ragamcanwyd; • Roedd gwariant COVID-19 ar £8.7m hyd yma, a rhannwyd hyn yn Profi, Orlhain, Diogelu a Brechlynnau. Rhagwelwyd y byddai £9.1m yn cael ei wario; • Roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cofnodi gwariant refeniw o £24.5m yn erbyn cynlluniau Y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol hyd yma, gyda chynllun i wario £31.4m erbyn diwedd y flwyddyn; • Cofnododd Iechyd a Gofal Digidol Cymru £6.2 o wariant cyfalaf hyd yn hyn, gyda £1.2m i'w wario o hyd, roedd disgwyl i hyn gael ei gyflawni; • Rhannwyd amserlen drafft y Cyfrifon Archwilio; • Byddai Safon Archwilio ISA315 newydd yn cael ei defnyddio i gefnogi'r adolygiad o'r cyfrifon; • Roedd pwysau cost sylweddol ar y GIG, byddai codiadau dyraniadau yn 1.5% ar gyfer 2023/24, 0.75% ar gyfer 2024/5 a 2% ar gyfer 2025/26; • Rhannwyd pwysau anochel a buddsoddiadau angenrheidiol; • Roedd y sefyllfa bresennol yn rhagweld targed adennill net o £1.9m yn 2023/24 cyn rhoi unrhyw gamau lliniaru ychwanegol ar waith; • Amlygwyd risgiau a chyfleoedd fel, Chwyddiant Digidol, | <p>Derbyniwyd a Thrafodwyd</p> | <p>Dim i'w nodi</p> |

| | | | |
|-----|--|----------------|--------------|
| | <p>Cynnydd mewn Costau Ynni Cytundebol ac Adennill TAW gan Microsoft;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddai Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn symud canolfan ddata yn 2023-24 a byddai hyn yn cael ei gwmpasu gan Y Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol a chyllid Cyfalaf; • Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu costau cyfalaf a refeniw y Cynllun Cydnerthedd Seiber ar gyfer 2023-24. Nid oedd cyllid yn rheolaidd, ond roedd hwn yn gam cadarnhaol ymlaen. <p>Yn dilyn y cyflwyniad, gwnaed y sylwadau isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd chwyddiant digidol yn aml-gymhleth; • Roedd chwyddiant cyflog yn cael ei gadw'n ganolog a byddai'n cael ei gwmpasu gan Lywodraeth Cymru; • Nid oedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cyflwyno cynllun Cynllun Tymor Canolig Integredig cytbwys eleni oherwydd pwysau ariannol; • Ni dderbyniwyd cadarnhad llawn o Gytundebau Lefel Gwasanaeth gan Fyrddau Iechyd a oedd yn risg; • Roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cymryd camau i gyflawni cynllun arbedion yn 2023-24, felly, roedd y tîm yn weddol hyderus y byddai arbedion yn cael eu cyflawni ar gyfer 2023-24, fodd bynnag byddai angen cynllun arbedion strategol ar gyfer y blynyddoedd i ddod. <p>Penderfynodd y Bwrdd: DDERBYN a THRAFOD yr Adroddiad Cyllid.</p> | | |
| 4.3 | <p>Cynllun Cydraddoldeb Strategol</p> <p>Rhannodd Sarah-Jane Taylor (SJT), Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Amlygodd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hwn oedd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru; • Amlinellodd y SEP ymrwymiad Iechyd a Gofal Digidol Cymru i fod yn Gyflogwr o Ddewis cynhwysol; • Byddai angen i Iechyd a Gofal Digidol Cymru adolygu a diwygio ei holl amcanion cydraddoldeb o leiaf unwaith bob pedair blynedd. • Roedd Marilyn-Bryan Jones, Aelod Annibynnol ac Aelod Annibynnol Hyrwyddwr Bwrdd dros gydraddoldeb wedi | Cymeradwy ywyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|-----|---|-------------------------------|--------------|
| | <p>bod yn rhan o ddatblygu'r cynllun;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y cynllun wedi bod allan ar gyfer ymgynghoriad ers nifer o wythnosau, a chymerwyd yr holl sylwadau ac adborth a dderbyniwyd i ystyriaeth a'u hymgorffori yn y cynllun; • Roedd yr ymrwymadau allweddol a gynhwyswyd yn y cynllun yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> - Denu a Chadw - Gwrth-hiliaeth - Gwrth-fwlio - Cyfleoedd i Ddatblygu <p>Croesawodd y Bwrdd y cynllun ac eglurodd y byddai'r ffocws nawr ar sut i ddod â'r cynllun yn fyw. Cadarnhaodd SJT fod y cynllun wedi'i drafod yn agored yn y Diwrnod Uwch Arweinyddiaeth diwethaf i sicrhau bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cofleidio'r disgwyliadau a nodir yn y cynllun.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd: GYMERADWYO'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.</p> | | |
| 4.4 | <p>Dull Cynnyrch</p> <p>Cyflwynodd Sam Lloyd (SL), Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau y diweddariad ar y dull rheoli cynnyrch. Amlygodd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yrwy'r Strategol Iechyd a Gofal Digidol Cymru <ul style="list-style-type: none"> - Cefnogi'r weledigaeth - Cefnogi 5 cenhadaeth - Canolbwyntio adnoddau - Lleihau amser i werthfawrogi - Mwy o ffocws ar brofiad cwsmeriaid - Darparu gwerth gorau am arian • Mae'r manteision yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> - Cysondeb - Cyllid cynaliadwy - Atebolrwydd - Ymgysylltu â defnyddwyr - Datblygu sgiliau - Cyflwyno integredig - Gwelliant parhaus | Derbyniwyd a Thrafodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|-----|--|--------|--------------|
| | <ul style="list-style-type: none"> - Prawf yn y dyfodol • Byddai cynnyrch yn effeithio ar draws y sefydliad; • Mae'r cynnyrch yn dibynnu ar DevOps gan gynnwys adeiladu, codio, cynllunio profion ac ati; • Byddai asesiad aeddfedrwydd yn cael ei gynnal a chynllun gweithredu i fynd i'r afael â hyn yn cael ei ddatblygu; • Mae cael llwyfan cynnyrch ystyrlon yn dibynnu ar bensaerniaeth dda ar waith; • Rhannwyd enghraifft o'r Model Gweithredu Cynnyrch; • Rhannwyd camau nesaf lefel uchel; • Roedd ffocws ar set sgiliau yn cael ei gyflawni, roedd hyn yn cael ei ystyried ar y cyd â Gartner; <p>Gwnaed y sylwadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd cysylltiad agos rhwng dull cynnyrch ac amcanion strategol y sefydliad; • Byddai Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn parhau i redeg prosiectau, rhaglenni a phortffolios ochr yn ochr â dull cynnyrch; • Roedd y dull cynnyrch o weithio ar waith ar draws diwydiannau, felly roedd pwyntiau dysgu y gallai Iechyd a Gofal Digidol Cymru eu cymryd gan wahanol sefydliadau; • Byddai mesur gwerth yn y lleoliad gofal iechyd yn allweddol i fodel ariannu cynaliadwy; • Roedd angen cydweithio ar draws y sefydliad; • Os bydd y cynnyrch yn llwyddiannus, byddai'n trawsnewid y sefydliad. <p>Penderfynodd y Bwrdd: DDERBYN A THRAFOD y Dull Cynnyrch.</p> | | |
| 4.5 | <p>Achos Cyfiawnhad Busnes Yr Adnodd Data Cenedlaethol</p> <p>Cyflwynodd IE gynnis buddsoddi digidol Cam 3 yr Adnodd Data Cenedlaethol. Amlygodd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd mis Mawrth 2023 yn nodi diwedd achos busnes cam 2. Mae achos cam 3 yn nodi'r cyfiawnhad a'r cyllid sydd eu hangen ar gyfer Ebrill 2023-Mawrth 2025; • Roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn brif sefydliad cyflawni ar gyfer y rhaglen Adnodd Data Cenedlaethol, gan arwain ar gyflwyno'r cydrannau cenedlaethol; | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|------------------------|--|--|--|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Roedd mwyafrif staff yr Adnodd Data Cenedlaethol yn cael eu cyflogi gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru; • Rhagwelwyd newidiadau i'r cynllun cyflawni fel rhan o broses craffu/cymeradwyo Llywodraeth Cymru, yn ogystal â phwysau cyllidebol y Gronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol; • Byddai'r buddion a gynhwyswyd yn yr Achos Cyfiawnhad Busnes yn eiddo i wahanol bartneriaid rhanddeiliaid, gan gynnwys byrddau Iechyd, o fewn y Rhaglen Adnoddau Data Genedlaethol. <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>NODI Achos Cyfiawnhad Busnes yr Adnodd Data Cenedlaethol</p> | | |
| Egwyl Cinio - 35 munud | | | |

RHAN 5 – LLYWODRAETHU, RISG, PERFFORMIAD A SICRWYDD

| | | | |
|-----|---|-------------------|--------------|
| 5.1 | <p>Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2022 ac Adroddiad Archwilio Blynyddol</p> <p>Cyflwynodd Darren Griffiths o Archwilio Cymru Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2022. Amlygwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn gyffredinol, canfu adroddiad Archwilio Cymru fod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwreiddio trefniadau llywodraethu da a nawr bod yn rhaid iddo geisio datblygu ymhellach ei rôl fel partner digidol y gellir ymddiried ynddo i fanteisio ar gyfleoedd gwasanaeth digidol ledled Cymru. • Cafodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ei arwain yn dda ac mae wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran sefydlu a gwreiddio trefniadau priodol i gefnogi llywodraethu da; • Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ddulliau cynllunio effeithiol, ond roedd angen gwaith pellach i ddatblygu ei strategaeth tymor hwy; • Byddai angen cynnwys cerrig milltir a thargedau mewn cynlluniau i alluogi monitro cynnydd yn effeithiol. <p>Gwnaed y sylwadau canlynol:</p> <p>Hwn oedd yr Asesiad Strwythuredig cyntaf ar gyfer y sefydliad ac roedd yn esblygiad o'r Adolygiad Llywodraethu Sylfaenol a gynhaliwyd yn 2021;</p> <p>Wrth i Iechyd a Gofal Digidol Cymru symud tuag at ddarpariaeth hyblyg, ystwyth byddai'n anodd gosod amserlenni cadarn o fewn yr holl gynlluniau a strategaethau, fodd bynnag nodwyd y byddai cerrig milltir yn cael eu cynnwys, gan gydnabod rhywfaint o hyblygrwydd ynddynt, a byddai hyn yn sicrhau bod Bwrdd yr</p> | Rhoddwyd sicrwydd | Dim i'w nodi |
|-----|---|-------------------|--------------|

| | | | |
|-----|--|-------------------|--------------|
| | <p>Awdurdod Iechyd Arbennig a'i Bwyllgorau yn ennill sicrwydd bod cynlluniau'n cael eu cyflawni;</p> <p>Trafodwyd yr Asesiad Strwythuredig yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Chwefror 2023, roedd yn adroddiad cadarnhaol iawn ac yn adlewyrchu aeddfedrwydd cynyddol Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel sefydliad;</p> <p>Byddai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn monitro'r argymhellion o'r adroddiad yn agos i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, yn ogystal â hynny, byddai cyfleoedd dysgu yn cael eu datblygu.</p> <p>Rhannwyd Adroddiad Blynyddol Archwilio Cymru 2022 ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac amlygwyd y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd cyfrifon Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi'u paratoi'n briodol ac yn berthnasol gywir a chyhoeddwyd barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd gwaith Archwilio Cymru unrhyw wendidau perthnasol yn rheolaethau mewnol Iechyd a Gofal Digidol Cymru; • Gwnaethpwyd un argymhelliad a byddai camau gweithredu i fynd i'r afael â hyn yn cael eu hadolygu fel rhan o waith cyfrifon 2022-23; • Cyflawnodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ei ddyletswydd ariannol i adennill costau yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw a Chyfalaf ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022; • Mae gwaith archwilio perfformiad wedi arwain yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwneud cynnydd cadarnhaol o ran gwreiddio trefniadau llywodraethu da a bod yn rhaid iddo bellach geisio datblygu ei rôl fel partner digidol y gellir ymddiried ynddo ymhellach i fanteisio ar gyfleoedd gwasanaethau digidol ledled Cymru. <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>DDERBYN A THRAFOD Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2022 ac Adroddiad Archwilio Blynyddol 2022 ar gyfer SICRWYDD.</p> | | |
| 5.2 | <p>Adolygiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o Effeithiolrwydd y Bwrdd – Asesiad Iechyd a Gofal Digidol Cymru</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd, er sicrwydd, yn dilyn cyhoeddi adroddiad Archwilio Cymru o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gofynnodd am asesiad gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn erbyn themâu ac argymhellion yr adroddiad.</p> <p>Cyflwynodd Chris Darling (CD), Ysgrifennydd y Bwrdd yr adroddiad a dywedodd fod adroddiad Bwrdd Iechyd Prifysgol</p> | Rhoddwyd sicrwydd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|-----|--|-------------------------|--------------|
| | <p>Betsi Cadwaladr wedi edrych ar y tîm Gweithredol a'r Bwrdd a sut roedd yn gweithredu. Dywedodd CD mai dim ond yn ddiweddar y penodwyd tîm Gweithredol Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn llawn a bod hyn wedi cymryd bron i ddwy flynedd i fod yn dîm a oedd wedi'i recriwtio'n llawn. Roedd hon yn sefyllfa debyg i Aelodau Annibynnol oherwydd oedi yn y broses recriwtio.</p> <p>Darparodd adroddiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr nodyn atgoffa defnyddiol ar bwysigrwydd gwaith datblygu sefydliadol y Bwrdd. Wrth i Fwrdd a Thîm Gweithredol Iechyd a Gofal Digidol Cymru gael eu sefydlu'n llawn, comisiynodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru Deloitte fel partner i ddylunio rhaglen Datblygu Sefydliadol Bwrdd bwrpasol ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Dechreuodd y gwaith hwn ym mis Hydref 2022 a ffocws mawr yn y rhaglen oedd her, cydlyniant ac ymddiriedaeth y Bwrdd.</p> <p>Roedd y Bwrdd yn cydnabod yr angen i brofi a sicrhau eu hunain yn barhaus yn y maes hwn.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>DDERBYN a THRAFOD Adolygiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o Effeithiolrwydd y Bwrdd – Asesiad Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer SICRWYDD.</p> | | |
| 5.3 | <p>Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig</p> <p>Cyflwynodd IE yr adroddiad sefydliadol integredig hyd at ddiwedd Chwefror 2023. Gwnaed y sylwadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynwyd Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd bob deufis mewn ôl-ddyledion; • Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar gynllunio, fodd bynnag, dros y misoedd nesaf byddai ffocws ar adrodd ar berfformiad; • Amlygwyd y cynllun interim ar dudalen, gan nodi y byddai'r Cynllun Busnes Blynyddol yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd ym mis Mai a fyddai'n cynnwys yr holl lefel o fanylion ynghylch rhaglenni Iechyd a Gofal Digidol Cymru; • Roedd y cynllun ar y dudalen yn nodi uchelgais Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer y flwyddyn, nid oedd yn cynnwys holl gynlluniau'r sefydliad, roedd yn canolbwyntio ar y cynlluniau sydd bwysicaf i Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r hyn a flaenoriaethwyd. <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>DDERBYN a THRAFOD yr Adroddiad Perfformiad Sefydliadol</p> | Derbyniwyd a Thrafodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|-----|--|-------------------------|--------------|
| | Integredig | | |
| 5.4 | <p>Adroddiad y Gofrestr Risgiau Corfforaethol</p> <p>Cyflwynodd CD ddiweddariad i'r Adroddiad y Gofrestr Risg Gorfforaethol. Tynnodd CD sylw at Adroddiad Risg Byd-eang Fforwm Economaidd y Byd a dywedodd fod themâu sy'n berthnasol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi'u trafod yn y sesiwn Datblygu Bwrdd ddiwethaf. Amlygwyd y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd 31 o risgiau ar y gofrestr risg gorfforaethol, a manylwyd ar 20 ohonynt yn yr adroddiad; • Dosbarthwyd 11 o risgiau fel rhai preifat, ac mae 10 ohonynt yn cael eu trafod ym mhob Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol a byddai 1 yn cael ei thrafod yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd; • Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, ychwanegwyd 15 risg: <ul style="list-style-type: none"> - DHCW0302 Cynnydd Incwm Cytundeb Lefel Gwasanaeth CANISC Felindre - DHCW0303 Cyllid Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg Gofal Sylfaenol - DHCW0304 Cynnydd Incwm Cytundeb Lefel Gwasanaeth GIG Cymru - DHCW0305 Cyllid Craidd Llywodraeth Cymru - DHCW0306 Gwasanaeth Newid – Olyniaeth - DHCW0307 Gwasanaeth Newid - Datblygiad ymatebol - DHCW0308 Cyllid cynaliadwy ar gyfer NIIAS - DHCW0311 Pwysau Cost Digidol – Newidiadau i'r Model Pris Cyflenwr - DHCW0312 Pwysau Cost Digidol – Risg Amrywiad Cyfradd Gyfnewid - DHCW0313 Pwysau Cost Digidol – Newidiadau i Fodelau Gwasanaeth - DHCW0314 Pwysau Cost Digidol – Risg Cadwyn Gyflenwi • Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, dilëwyd 7 risg: <ul style="list-style-type: none"> - DHCW0228 Parthau Nam - DHCW0289 Chwyddiant Digidol - DHCW0302 Incwm Cytundeb Lefel Gwasanaeth | Derbyniwyd a Thrafodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|-----|---|--------|--------------|
| | <p>Felindre Canisc</p> <ul style="list-style-type: none"> - DHCW0303 Cyllid Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg Gofal Sylfaenol - DHCW0305 Cyllid Craidd Llywodraeth Cymru <ul style="list-style-type: none"> • Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd bu 2 risg gyda newid yn y sgôr: <ul style="list-style-type: none"> - DHCW0299 Capasiti Cyflenwyr i gefnogi EPS – Mae hyn wedi cynyddu o 12 i 20 – IE oedd perchennog y risg a dywedodd fod hon yn gadwyn gyflenwi dechnegol gymhleth, fodd bynnag roedd gwaith lliniaru yn cael ei wneud; - DHCW0259 Swyddi Gwag - Mae llawer o waith wedi'i wneud yn y maes hwn ac mae hyn wedi'i leihau o 15 i 12. <p>Y risgiau a sgoriodd uchaf gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - DHCW0299 – Capasiti cyflenwyr i gefnogi gweithgareddau parodrwydd y Gwasanaeth Presgripsiwn Electronig; - DHCW0298 – Oedi gyda Gweithredu LINC (WLIMS 2; a) - DHCW0304 - Cynnydd mewn Incwm Cytundeb Lefel Gwasanaeth GIG Cymru <p>Dywedodd CD fod sefyllfa risg y sefydliad ar hyn o bryd yn cael ei dominyddu gan risgiau seiber a chyllid, ond rhagwelwyd y byddai nifer o risgiau'n cael eu lliniaru cyn cyfarfod nesaf Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig ym mis Mai 2023.</p> <p>Ychwanegodd IE fod gwaith yn cael ei wneud i gael risgiau rhaglen a phrosiect ar gofrestr risg y sefydliad. Sgoriwyd y risgiau hyn gan y rhaglen / prosiect ond rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd yn rheoli'r risgiau hyn yn weithredol.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd: DDERBYN a THRAFOD y Gofrestr Risg Gorfforaethol</p> | | |
| 5.5 | <p>Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth</p> <p>Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad byr o ddau gyfarfod y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth a gynhaliwyd ar 19 Ionawr a 2 Mawrth 2023. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn adolygu ei ofynion adrodd blynyddol, yn cael ei ddiweddarau ar berfformiad ac amcanion y tîm gweithredol yn ogystal â</p> | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|-----|---|--------|--------------|
| | <p>chymeradwyo cytundeb setlo.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>NODI Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth</p> | | |
| 5.6 | <p>Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Fforwm Partneriaeth Lleol</p> <p>Rhoddodd Andrew Fletcher (AF), Aelod Cyswllt o'r Bwrdd ddiweddariad o gyfarfod y Grŵp Ymgynghorol a dywedodd wrth y Bwrdd fod Gweithio Hybrid a'r Cynllun Ystadau yn cael eu monitro'n ofalus gan y Fforwm Partneriaeth Lleol.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>NODI'r Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Fforwm Partneriaeth Lleol</p> | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 5.7 | <p>Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol</p> <p>Rhoddodd Rowan Gardner, Aelod Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol ddiweddariad i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol a gynhaliwyd ym mis Chwefror a gwnaeth sylwadau ar yr agwedd agored at y cyfarfod a oedd yn gadarnhaol iawn.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>NODI Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol</p> | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 5.8 | <p>Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd</p> <p>Cyflwynodd Marian Wyn Jones (MWJ), Aelod Annibynnol adroddiad ar y cyfarfod Archwilio a Sicrwydd a gynhaliwyd ym mis Chwefror. Dywedodd MWJ wrth y Bwrdd fod y Pwyllgor wedi derbyn yr Adroddiadau Archwilio canlynol, a bod pob un ohonynt wedi derbyn 'Sicrwydd Rhesymol' a oedd yn galonogol:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cynaliadwyedd Ariannol - Gwreiddio'r Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid - Rheoli Perfformiad - Gwasanaethau Newid <p>Mynegodd MWJ hefyd ei gwerthfawrogiad o ymrwymiad y Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Gweithredol y tîm Llywodraethu Ariannol a Chorfforaethol.</p> <p>Codwyd ymholiad ynghylch sut mae'r sefydliad yn lledaenu gwybodaeth a diweddariadau o gyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgorau i staff. Eglurwyd bod nifer o offer cyfathrebu yn cael eu defnyddio i gynnwys Briffio Staff gyda'r Prif Swyddog Gweithredol, Cylchlythyrau Mewnol, Mewnwelediadau Bwrdd, Fideos Cryno</p> | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---------------------------------|---|-----------|--------------|
| | <p>Bwrdd a TenTalks.</p> <p>Penderfynodd y Bwrdd:</p> <p>NODI Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd</p> | | |
| RHAN 6 - MATERION I GLOI | | | |
| 6.1 | <p>Unrhyw Faterion Brys Eraill</p> <p>Ni chodwyd unrhyw fusnes brys arall.</p> | Trafodwyd | Dim i'w nodi |
| 6.2 | <p>Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf</p> <ul style="list-style-type: none"> Dydd Iau 25 Mai 2023 <p>Daeth y cyfarfod i ben am 14:50</p> | Nodwyd | Dim i'w nodi |